**Grŵp Ecosystem Corstiroedd PBC**

**Canllaw Rhif 1. Uwch-amcanion ar gyfer y mathau o gynefin corstir blaenoriaethol:**

**Cylch gorchwyl cynefinoedd**

Mae Grŵp Ecosystem Corstiroedd PBC yn cynnwys y pum cynefin blaenoriaethol canlynol:

Cyforgors llawr gwlad
Gorgors (enghreifftiau llawr gwlad yn unig – mae grŵp y bryniau'n gyfrifol am yr adnodd ehangach yn y bryniau)
Ffen llawr gwlad
Corsydd pori glannau'r môr a gorlifdiroedd
Corsleoedd gwlybion

**Uwch-amcanion cyffredinol**

1. Sicrhau na chollir dim rhagor o'r adnodd cynefin blaenoriaethol corstirol.
2. Gweithredu rheolaeth ffafriol ar gyfer yr adnodd, gan arwain, yn y pen draw, at gyflwr ffafriol lle mae angen rheolaeth adferol, neu reolaeth gynhaliol lle bônt eisoes mewn cyflwr da.
3. Ail-greu'r adnodd cynefin lle bu gynt yn bresennol, gyda phwyslais ar (i) mawn trwchus yn cynnal llystyfiant hynod addasedig, megis coed conwydd a thir pori wedi'i wella; (ii) mannau nesaf at safleoedd presennol; (iii) mannau lle cyfrannai ail-greu cynefin at well cydgysylltedd rhwng clytiau cynefin presennol neu gynefinoedd lled-naturiol cysylltiedig megis tir pori gwlyb a choetir gwlyb.
4. Yn gymaint ag y cefnogo hynny amcanion bioamrywiaethol: rheoli'n gyson â phrosesau naturiol. Symbylu amrywiaeth o gyflyrau olyniaethol, adfer llwybrau llif dŵr daear a dorrwyd gan ddraeniad, neu waith adfer hydrolegol cyson â phrif ddulliau cyflenwi dŵr safleoedd, e.e.
5. Mae annog rheolaeth / adfer ar raddfeydd sy'n galluogi datblygiad prosesau naturiol yn hynod ddymunol: tirweddau corstirol gyda pharthau a orlifir yn naturiol gan afonydd, a gofod ar gyfer trawsnewidiadau olyniaethol yn goetir gwlyb, e.e. Yn ymarferol, bydd llawer o'r ymdrech reoli/adfer yng Nghymru'n canolbwyntio, o raid, ar safleoedd cymharol fychain sydd yn aml yn anghysbell.
6. Lle bo angen camau penodol ar gyfer rhywogaeth neilltuol, cyfuno'r cyfryw â gweithredu cynefinol, cymaint ag y bo modd. Sicrhau ystyried rhywogaethau Adran 42 a gynhwysir yng ngweithredoedd rheoli cynefin generig.
7. Cyfuno cynnal a chadw, adfer ac ail-greu cynefin â chyflawni gwasanaethau ecosystemol, lle bo addas hynny.
8. Anelu at greu cynefinoedd newydd ym mannau lle bo hynny'n debyg o fod yn allweddol ar gyfer gwella cydgysylltedd cynefinoedd. Yng Nghymru'n gyffredinol (lle mae llawer o gynefin lled-naturiol yn weddill,

ond yn aml yn wael ei gyflwr ac yn wrthrych rheolaeth anffafriol), dylai’r pwyslais fod ar gadw / adfer y cynefin sy’n weddill.

9. Ystyried mannau blaenoriaethol ar gyfer gweithredu corstirol a ddiffiniwyd gan y Grŵp Ecosystem Corstiroedd wrth flaenoriaethu safleoedd ar gyfer adfer/ail-greu.

Pete Jones
Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Corstiroedd

Drafft 1[af], Gorffennaf yr 2[il] 2013